Russell George AS

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@senedd.wales

2 Rhagfyr 2020

Annwyl Gadeirydd,

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd, rydym wedi cymryd y cyfle i ystyried eich pwyntiau ac wedi amlinellu ein safbwyntiau isod:

Gan ddelio â phob un o'r pwyntiau yn eu tro:


***Dadansoddiad o swyddi***

Ers sefydlu Banc Datblygu Cymru, rydym wedi ceisio mesur effaith ein gweithgareddau buddsoddi yn gywir. Mae dangosyddion perfformiad yn gysylltiedig â phob cronfa a ddarparwn a chaiff y rhain eu diffinio ar ddechrau'r gronfa, gyda'r rhanddeiliaid yn pennu sut i adrodd arnynt.  O ran data cyflogau, mae hyn wedi bod yn un o ofynion hirdymor y cronfeydd a gefnogir gan yr UE ac rydym wedi ymestyn y dull adrodd hwn yn ddiweddar er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu pob buddsoddiad.  Gan edrych ar y cronfeydd buddsoddi nad ydynt yn ymwneud ag eiddo, llwyddodd ein perfformiad o ran swyddi i barhau i dyfu tuag at y targed pum mlynedd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 mewn perthynas â'r ddwy agwedd hyn.

**Development Bank of Wales Plc**
Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.




Er ei fod yn wir i ddweud na allwn gyfuno rhywedd a rhaniad rhywedd, rydym yn mesur ansawdd y swyddi a grëwyd o ran cyflog ac awgryma ein data diweddaraf fod 50% o'r swyddi cyfwerth ag amser llawn mewn busnesau sy'n cael cymorth drwy fuddsoddiad gan Fanc Datblygu Cymru yn ennill cyflogau canolrifol i uchel.

Un maes yr ydym yn canolbwyntio arno yw monitro'r nifer sy'n manteisio ar ein cynnyrch a'n gwasanaethau ar sail amrywiaeth yr entrepreneuriaid ac rydym yn monitro hyn ar ran y cyfarwyddwyr. Dengys data fod 29% yn fenywod a 3% yn BAME.

Mae'n werth nodi bod tîm o Ysgol Fusnes Caerdydd wedi asesu effaith gweithgareddau Banc Datblygu Cymru ar Economi Cymru ym mriff chwarterol Dirnad Economi Cymru, gan ddod i'r casgliad canlynol:

*"Gellir cysylltu pob £1 filiwn o fuddsoddiad gan y Banc Datblygu ag oddeutu £2.3 miliwn o werth ychwanegol gros Cymru. Amcangyfrifir fod gwerth ychwanegol gros Cymru sy'n gysylltiedig ag 800 o'r swyddi a grëwyd o ganlyniad i fuddsoddiadau gan y Banc Datblygu yn werth bron i £30 miliwn. Amcangyfrifir fod gwerth ychwanegol gros Cymru sy'n gysylltiedig â'r cyfanswm o bron i 2,800 o swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd yn werth oddeutu £110 miliwn. Fodd bynnag, bydd y ffigur hwn yn cynyddu i fwy na £181 miliwn wrth ychwanegu effeithiau lluosydd. Dylid ystyried y ffigur hwn fel amcangyfrif cymedrol o'i effaith gan ei fod ond yn ymwneud ag effeithiau swyddi tymor byr a gwerth ychwanegol gros. Mae buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru yn debygol o gael effeithiau ehangach a hirdymor, ac nid yw'r dadansoddiad hwn yn eu cyfleu yn llawn, gan gynnwys er enghraifft effeithiau sy'n fwy anodd eu mesur o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant cwmni."*

Byddwn yn parhau i ymdrechu i ddarparu gwell dadansoddiad o'r holl ddata sydd ar gael yn unol â'r her o beidio â rhoi gormod o faich ar ein cwsmeriaid sy'n fusnesau bach.

Banc
BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

***Ffynonellau Cyfalaf***

Bu'r tîm yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio deall anghenion cyllid y farchnad yn well yn sgil Brexit a Covid gan symud yn gyflym i roi sylw i'r ddau drwy greu Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a Chynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru, er mwyn gallu rhoi sylw i'r ddwy her yn yr un modd. Rydym hefyd yn gweithio ar gynlluniau i ddod o hyd i atebion cyllid hirdymor a byddwn yn fodlon darparu manylion am y rhain i'r Pwyllgor mewn pwyllgorau craffu yn y dyfodol.

***Lliniaru risg a chael gwerth am arian yn ystod Covid***

Yn ystod achlysur lansio Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru, roeddem yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod angen y cyllid hwn ar fyrder yn ogystal â'r angen i sicrhau'r cyllid yn y ffordd orau. Nodwn y cais gan y pwyllgor i ddarparu manylion pellach yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

***Ailgyllido benthyciad Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru***

Fel y crybwyllwyd yng ngwrandawiad y Pwyllgor, pan lansiodd y British Business Bank ddull gwarantu y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn Sgil y Coronafeirws, nid oedd yn amlwg i Fanc Datblygu Cymru na'r British Busines Bank a fyddai sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yn gymwys i gael y warant. Maes o law, cadarnhaodd y Trysorydd wrth nifer o ymgeiswyr tebyg, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, nad oedd y warant gyhoeddus wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio i yswirio cyllid cyhoeddus. Mae'n bosibl y gall benthyciwr Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn Sgil y Coronafeirws ail-gyllido benthyciadau Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru ar sail unigol ac mae nifer bach o fusnesau a gafodd gymorth gan Gynllun Cymru yn wreiddiol eisoes wedi manteisio ar y cyfle i ad-dalu ein benthyciad pan fo benthyciad amgen ar gael. Rydym yn sgwrsio'n barhaus â phrif fenthycwyr yn y sector preifat i hyrwyddo'r trefniant hwn, pan fo'n briodol. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain, felly penderfyniad y benthyciwr yn llwyr yw p'un a yw hyn yn rhywbeth y mae am ei ystyried ai peidio.

Mae croeso i chi gysylltu â ni eto os hoffech ragor o wybodaeth neu os bydd gennych unrhyw sylwadau eraill yn sgil y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

**Giles Thorley**

**Prif Weithredwr**